



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	20 Chwefror 2019
TEITL	Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad 3ydd Chwarter
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2018/19.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Prif gasgliad yr adolygiad chwarter 3 yw bod disgwyl bydd GwE yn cadw oddi fewn y cyllid craidd a grantiau penodol sydd ar gael yn 2018/19.
- 1.2 Yng nghyfarfod 28 Tachwedd y Cydbwyllgor amcangyfrifwyd sefyllfa net lled niwtral am eleni, gyda thanwariant net o (£994).
- 1.3 Ers hynny, ni fu newid arwyddocaol i'r sefyllfa net, a bellach rhagwelir tanwariant o (£1,618). Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.
- 1.4 Bwriedir cyflwyno cynllun gweithredu i'r Cydbwyllgor yn fuan, yn datrys yn barhaol y diffyg cyllidol amlygir yn rhan 2.3 a rhan 2.4.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:**

Chwarter 3: tanwariant (£85,608) Chwarter 2: tanwariant (£78,750).

Mae trosiant staff, yn bennaf secondiad i Gyfarwyddwr Cynorthwyol o'r 1af o Fehefin wedi arwain at danwariant un-tro gan ariannu, ar sail dros dro, arbedion i'w ddarganfod (gweler 2.4). Mae trosiant ychwanegol i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2, yn bennaf gydag anawsterau penodi swyddog cyllid dros dro, wedi cynyddu'r tanwariant ychydig.

2.2 **Cludiant – Costau Teithio:**

Chwarter 3: tanwariant (£5,069) Chwarter 2: tanwariant (£5,682).

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir bod hyn yn parhau yn 2018/19.

2.3 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

Chwarter 3: Gorwariant £41,180 Chwarter 2: Gorwariant £35,559.

Mae'r pennawd yma yn gorwario yn flynyddol am nifer o resymau. Disgwylir i hyn barhau yn 2018/19. Yn benodol i 2018/19, mae anawsterau penodi cyfieithydd dros dro, a gofynion ychwanegol rhai Prosiectau Penodol, yn cynyddu'r defnydd o gyfieithwyr allanol. Gwelir cynnydd bychan yn y gorwariant ar draws sawl pennawd.

2.4 **Arbedion i'w darganfod**

Chwarter 3: Gorwariant £47,879 Chwarter 2: Gorwariant £47,879.

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2, sef gorwariant, gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r targed arbedion. Defnyddir arbediad trosiant staff (gweler 2.1) i'r targed arbedion yn y tymor byr.

2.5 **Grant Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol**

Chwarter 3 : Niwtral Chwarter 2 : Niwtral.

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Yn 2018/19 mae holl grantiau mae'r GwE yn ei dderbyn yn flynyddol, oni bai i'r Grant Datblygu Disgyblion, wedi ei gyfuno i un grant cynhwysfawr. Mae'r gyllideb wedi ei addasu i weithredu'r newid yma. Ni ragwelir gôr na than wariant hyd yma.

Dadansoddi'r grant cychwynnol gyflawn isod (llythyr cynnig 12 Mawrth 2018):

Datganoledig*	£25,908,641
Heb ei ddatganoli	£ 9,198,005
Cyfanswm	£35,106,646
Grant	£32,620,366
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Is-gyfanswm	£35,106,646

Dyraniad Ychwanegol (llythyr cynnig 28 Ionawr 2019):

Datganoledig – Dysgu'n Broffesiynol*	£ 2,011,729
Nifer penawdau Codi Safonau	£ 1,088,843
Is-gyfanswm	£ 3,100,572
Cyfanswm Terfynol 2018/19	£38,207,218

* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

3. CRONFA TANWARIANT

- 3.1 Ar ôl defnyddio £466,956 yn 2017/18, cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2018/19 oedd £271,616, ac am y tro oherwydd ansicrwydd ariannu i'r dyfodol, nid yw hwn wedi ei ymrwymo i'w wario eleni ac yr run modd ar gyfer 2019/20.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad 3ydd Chwarter 2018/19.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.